OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 557 (Cy.79)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

LLYGRU MOROL, CYMRU

Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r offeryn hwn yn rhagnodi manylion y materion y mae'n ofynnol, gan adran 101(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("y Ddeddf"), eu cynnwys yn y gofrestr o wybodaeth a gynhelir gan Weinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu. Pennir y gweithgareddau morol trwyddedadwy yn adran 66 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn diffinio rhai termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau, a rheoliad 3 yn darparu ar gyfer cymhwyso'r Rheoliadau. Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ym mha ffurf y caniateir cadw'r gofrestr, a gwybodaeth ragnodedig.

Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r manylion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau. Mae rheoliadau 6 i 12 yn rhagnodi manylion ychwanegol mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau a thrwyddedau. Mae rheoliadau 13 ac 14 yn rhagnodi manylion ynglŷn ag amrywiadau, dirymiadau, ataliadau dros dro a throsglwyddiadau trwyddedau. Mae rheoliadau 15 i 17 yn rhagnodi manylion ynglŷn â chollfarnau, mathau eraill o gamau gorfodi, a chamau unioni.

Mae adran 101(5) o'r Ddeddf yn gwahardd cynnwys gwybodaeth benodol yn y gofrestr, ar sail diogelwch gwladol neu gyfrinachedd masnachol. *Gweler* paragraff 7 o Atodlen 9 i'r Ddeddf am ddarpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â'r gofrestr a gynhelir o dan adran 14 o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2011 No. 557 (W.79)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

MARINE POLLUTION, WALES

The Marine Licensing (Register of Licensing Information) (Wales) Regulations 2011

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

This instrument prescribes the particulars of the matters required by section 101(1) of the Marine and Coastal Access Act 2009 ("the Act") to be contained in the register of information maintained by the Welsh Ministers as a licensing authority. Section 66 of the Act identifies licensable marine activities.

Regulation 2 defines certain terms used in the Regulations, and regulation 3 provides for the application of the Regulations. Regulation 4 makes provision for the form in which the register may be kept, and prescribed information.

Regulation 5 prescribes the particulars that must be included in the register relating to applications and licences. Regulations 6 to 12 prescribe additional particulars relating to particular types of applications and licences. Regulations 13 and 14 prescribe particulars relating to variations, revocations, suspensions and transfers of licences. Regulations 15 to 17 prescribe particulars relating to convictions, other enforcement action and remedial action.

Section 101(5) of the Act prohibits inclusion in the register of certain information on the grounds of national security or commercial confidentiality. *See* paragraph 7 of Schedule 9 to the Act for transitional provisions relating to the register maintained under section 14 of the Food and Environment Protection Act 1985.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn ag ym mha ffurf y dylid rhoi'r gofrestr ar gael at Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfeiriad isod.

Paratowyd asesiad llawn o effaith y system drwyddedu forol a sefydlwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ac y mae ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.

Enquiries as to the form in which the register is made available should be directed to the Marine Consents Unit of the Welsh Assembly Government at the address below.

A full impact assessment of the effect of the marine licensing system established under the Marine and Coastal Access Act 2009 has been prepared and is available from the Marine Consents Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or at the Welsh Assembly Government website at www.wales.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 557 (Cy.79)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

LLYGRU MOROL, CYMRU

Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011

Gwnaed	*25 Chwefror 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*1 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 101(2) a (3) a 316(1) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

Dehongli

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "yr awdurdod trwyddedu" ("*the licensing authority*") yw Gweinidogion Cymru, yn gweithredu yn eu swyddogaeth fel awdurdod trwyddedu priodol yn yr ystyr a roddir i "appropriate licensing authority" o dan adran 113 o'r Ddeddf ;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am drwydded, ond nid yw'n cynnwys cais am drwydded a gyflwynwyd ac a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach;

(**1**) 2009 p.23.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2011 No. 557 (W.79)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

MARINE POLLUTION, WALES

The Marine Licensing (Register of Licensing Information) (Wales) Regulations 2011

Made	*25 February 2011*
Laid before the National Assembly for Wales	*1 March 2011*
Coming into force	*6 April 2011*

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(**1**), make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 101(2) and (3) and 316(1) of that Act.

Title and commencement

1.–(1) The title of these Regulations is the Marine Licensing (Register of Licensing Information) (Wales) Regulations 2011.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2011.

Interpretation

2.–(1) In these Regulations–

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Marine and Coastal Access Act 2009;

"application" ("*cais*") means an application for a licence, but does not include an application for a licence submitted and subsequently withdrawn;

"co-ordinates" ("*cyfesurynnau*") means–

(a) co-ordinates of latitude and longitude on the World Goedetic System 1984; or

(b) co-ordinates on the National Grid used by the Ordnance Survey;

(**1**) 2009 c.23.

ystyr "cyfesurynnau" ("*co-ordinates*") yw–

(a) cyfesurynnau lledred a hydred yn System Geodetig Fyd-eang 1984; neu

(b) cyfesurynnau yn y Grid Cenedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

ystyr "y gofrestr" ("*the register*") yw'r gofrestr o wybodaeth trwyddedu a gynhelir o dan adran 101 o'r Ddeddf gan Weinidogion Cymru fel yr awdurdod trwyddedu priodol;

ystyr "trwydded" ("*licence*") yw trwydded forol.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at eitem benodol â rhif yn gyfeiriad at yr eitem â'r rhif hwnnw yn adran 66(1) o'r Ddeddf (sy'n pennu gweithgareddau morol trwyddedadwy).

Cymhwyso

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113 o'r Ddeddf(**1**).

Y gofrestr a gwybodaeth ragnodedig

4.–(1) Ceir cadw'r gofrestr mewn unrhyw ffurf.

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys y manylion a ragnodir yn y Rheoliadau hyn.

(3) Mae rheoliad 5 yn rhagnodi manylion mewn perthynas â phob cais a thrwydded.

(4) Mae rheoliadau 6 i 12 yn rhagnodi manylion ychwanegol mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau a thrwyddedau.

(5) Mae rheoliadau 13 ac 14 yn rhagnodi manylion mewn perthynas ag amrywiadau, dirymiadau, ataliadau dros dro a throsglwyddiadau trwyddedau.

(6) Mae rheoliadau 15 i 17 yn rhagnodi manylion mewn perthynas â chollfarnau, camau gorfodi eraill a chamau unioni.

(7) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnwys yn y gofrestr y manylion a ragnodir gan reoliadau 5 i 14 cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael neu creu'r wybodaeth dan sylw.

(**1**) O dan adran 113(4)(b) o'r Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf. Mae i "rhanbarth glannau Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh inshore region" yn adran 322(1) o'r Ddeddf.

"licence" ("*trwydded*") means a marine licence;

"the licensing authority" ("*yr awdurdod trwyddedu*") means the Welsh Ministers acting in their capacity as the appropriate licensing authority under section 113 of the Act;

"the register" ("*y gofrestr*") means the register of licensing information maintained under section 101 of the Act by the Welsh Ministers as the appropriate licensing authority.

(2) A reference in these Regulations to a numbered item is a reference to that numbered item in section 66(1) of the Act (which identifies licensable marine activities).

Application

3. These Regulations apply in relation to any licensable marine activity for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under section 113 of the Act(**1**).

The register and prescribed information

4.–(1) The register may be kept in any form.

(2) The register must contain the particulars prescribed in these Regulations.

(3) Regulation 5 prescribes particulars in relation to all applications and licences.

(4) Regulations 6 to 12 prescribe additional particulars relating to particular types of applications and licences.

(5) Regulations 13 and 14 prescribe particulars relating to variations, revocations, suspensions and transfers of licences.

(6) Regulations 15 to 17 prescribe particulars relating to convictions, other enforcement action and remedial action.

(7) The licensing authority must include in the register the particulars prescribed by regulations 5 to 14 as soon as practicable after receiving or generating the information in question.

(**1**) Under section 113(4)(b) of the Act, the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on licensable marine activities in Wales and the Welsh inshore region, other than activities for which the Secretary of State is the appropriate licensing authority by virtue of section 113(4)(a) and (5) of the Act. *See* section 322(1) for the definition of the Welsh inshore region.

Manylion cyffredinol ar gyfer ceisiadau a thrwyddedau

5. Y manylion mewn perthynas â phob cais a thrwydded yw–

(a) y dyddiad y gwnaed y cais;

(b) rhif cyfeirnod y cais neu rif y drwydded a ddyroddwyd gan yr awdurdod trwyddedu;

(c) rhif cyfeirnod cais neu rif trwydded unrhyw gais neu drwydded arall, a ystyrir gan yr awdurdod trwyddedu yn berthynol i'r cais neu'r drwydded dan sylw;

(ch) enw a chyfeiriad y ceisydd neu'r deiliad trwydded;

(d) enw a chyfeiriad unrhyw asiant, contractwr neu is-gontractwr y bwriedir iddo gymryd rhan yn y gweithgaredd y mae'r cais neu'r drwydded yn berthynol iddo;

(dd) unrhyw ardal cynllun morol(**1**) y mae'r cais neu'r drwydded yn berthynol iddi;

(e) dyddiad cychwyn y drwydded a'r dyddiad y daw i ben (fel y gwnaed cais amdanynt yn achos cais neu fel y'u caniatawyd yn achos trwydded);

(ff) y dyddiad y rhoddwyd y drwydded;

(f) manylion unrhyw amodau y rhoddwyd y drwydded yn ddarostyngedig iddynt;

(g) manylion, a gyflwynwyd gyda'r cais, am unrhyw astudiaethau o effeithiau posibl y gweithgaredd sydd i'w drwyddedu, ar yr amgylchedd ac ar iechyd dynol; ac

(ng) manylion unrhyw wybodaeth a gyflenwyd, erthygl a ddangoswyd, neu ganlyniad unrhyw ymchwiliad, archwiliad neu brawf a gynhaliwyd o dan adran 67(4) o'r Ddeddf (pŵer i wneud yn ofynnol bod ceisydd yn cyflenwi gwybodaeth etc) ac unrhyw wybodaeth, erthygl neu ganlyniad o'r fath a gyflenwyd neu a ddangoswyd rywfodd arall fel rhan o'r cais.

Dyddodi sylweddau neu wrthrychau

6.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 1, 2 neu 3 (dyddodi sylweddau neu wrthrychau).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

(a) disgrifiad, cyfansoddiad a maint y sylwedd neu'r gwrthrych sydd i'w ddyddodi;

(b) enw a disgrifiad o unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol y bwriedir gwneud y dyddodiad ohono, ac yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(**1**) *Gweler* adran 51(1) o'r Ddeddf.

General particulars for applications and licences

5. The particulars in relation to all applications and licences are–

(a) the date on which the application was made;

(b) the application reference number or licence number issued by the licensing authority;

(c) the application reference number or licence number of any other application or licence that the licensing authority considers is related to the application in question;

(d) the name and address of the applicant or licence holder;

(e) the name and address of any agent, contractor or sub-contractor proposed to be engaged in the activity to which the application or the licence relates;

(f) any marine plan area(**1**) to which the application or licence relates;

(g) the dates of commencement and expiry of the licence (as applied for in the case of an application, or as granted , in the case of a licence);

(h) the date on which the licence was granted;

(i) details of any conditions subject to which the licence was granted;

(j) the details supplied with the application of any studies of the potential environmental and human health effects of the activity to be licensed; and

(k) details of any information supplied, article produced, or the result of any investigation, examination or test carried out under section 67(4) of the Act (power to require applicant to supply information etc) and any such information, article or result otherwise supplied or produced as part of the application.

Deposit of substances or objects

6.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 1, 2 or 3 (deposit of substances or objects).

(2) The additional particulars are–

(a) the description, composition and quantity of the substance or object to be deposited;

(b) the name and description of any vehicle, vessel, aircraft, marine structure or floating container from which the deposit is to be made, and, in the case of any vessel, its registration number and country of registration;

(**1**) *See* section 51(1) of the Act.

(c) cyfesurynnau'r man y bwriedir gwneud y dyddodiad ynddo;

(ch) pan fo'r gweithgaredd yn dod o fewn eitem 1(c), cyfesurynnau'r adeiledd ar y tir y gwneir y dyddodiad ohono;

(d) pan fo'r gweithgaredd yn dod o fewn eitem 3, y cyfesurynnau lle y bwriedir llwytho;

(dd) yn achos dyddodi at ddibenion gwaredu, manylion unrhyw ddulliau gwaredu amgen a ystyriwyd gan y ceisydd, a'r rheswm dros ddyddodi'r sylwedd neu'r gwrthrych yn y môr.

(c) the co-ordinates at which the deposit is to be made;

(d) where the activity falls within item 1(c), the co-ordinates of the structure on land from which the deposit is to be made;

(e) where the activity falls within item 3, the co-ordinates at which the loading is to take place;

(f) in the case of deposit for the purposes of disposal, details of any alternative methods of disposal considered by the applicant and the reason for deposit of the substance or object in the sea.

Suddo

7.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 4, 5 neu 6 (suddo llongau neu gynwysyddion arnofiol).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

(a) y dyddiad y bwriedir suddo;

(b) enw'r llong neu'r cynhwysydd arnofiol y bwriedir ei suddo ac yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(c) y cyfesurynnau lle y bwriedir suddo'r llong neu'r cynhwysydd arnofiol;

(ch) disgrifiad o unrhyw lwyth yn y llong neu'r cynhwysydd arnofiol, gan gyfeirio at ei gyfansoddiad a'i faint.

Scuttling

7.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 4, 5 or 6 (scuttling of vessels or floating containers).

(2) The additional particulars are–

(a) the intended date of the scuttling;

(b) the name of the vessel or floating container to be scuttled and, in the case of any vessel, its registration number and country of registration;

(c) the co-ordinates at which the vessel or floating container is to be scuttled;

(d) a description of any cargo of the vessel or floating container by reference to its composition and quantity.

Adeiladu, newid neu wella gweithiau

8.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 7 (adeiladu, newid neu wella gweithiau).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

(a) disgrifiad o'r gweithiau sydd i'w cyflawni a'r dyddiadau y cynhelir y gweithiau arnynt neu rhyngddynt;

(b) y cyfesurynnau lle y bwriedir adeiladu, newid neu wella gweithiau.

Construction, alteration or improvement of works

8.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 7 (construction, alteration or improvement of works).

(2) The additional particulars are–

(a) a description of the works to be carried out and the dates on or between which the works are to be carried out;

(b) the co-ordinates at which the construction, alteration or improvement of works is to take place.

Defnyddio cerbyd etc i symud sylweddau neu wrthrychau etc oddi ar wely'r môr

9.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 8 (defnyddio cerbyd, llong etc i symud sylweddau neu wrthrychau oddi ar wely'r môr).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

(a) disgrifiad o'r sylwedd neu'r gwrthrych y

Use of vehicle etc to remove substances or objects from sea bed

9.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 8 (use of vehicle, vessel etc to remove substances or objects from the sea bed).

(2) The additional particulars are–

(a) a description of the substance or object to be

bwriedir ei symud oddi ar wely'r môr;

(b) enw a disgrifiad o unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol y bwriedir ei ddefnyddio i symud y sylwedd neu'r gwrthrych oddi ar wely'r môr, ac, yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(c) y cyfesurynnau lle y bwriedir symud y gwrthrych neu'r sylwedd;

(ch) y rheswm dros symud y sylwedd neu'r gwrthrych oddi ar wely'r môr;

(d) manylion unrhyw ddulliau amgen o symud a ystyriwyd gan y ceisydd.

Treillio

10.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 9 (treillio).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

(a) manylion y math o dreillio y bwriedir ei wneud;

(b) y cyfesurynnau lle y bwriedir treillio;

(c) manylion am unrhyw wybodaeth a ddelir gan yr awdurdod trwyddedu ynglŷn â halogiad y deunydd y bwriedir ei dreillio.

Dyddodi neu ddefnyddio ffrwydron

11.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 10 (dyddodi neu ddefnyddio sylwedd neu wrthrych ffrwydrol).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

(a) y cyfesurynnau lle y bwriedir dyddodi neu ddefnyddio'r sylwedd neu'r gwrthrych ffrwydrol;

(b) disgrifiad, gan gynnwys y maint, o'r sylwedd neu'r gwrthrych ffrwydrol hwnnw;

(c) manylion am y rheswm dros dyddodi neu ddefnyddio'r sylwedd neu'r gwrthrych ffrwydrol hwnnw.

Llosgi neu lwytho cerbyd etc ar gyfer llosgi

12.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 11, 12 neu 13 (llosgi sylweddau neu wrthrychau neu lwytho cerbyd, llong etc ar gyfer llosgi).

(2) Y manylion ychwanegol yw–

removed from the sea bed;

(b) the name and description of any vehicle, vessel, aircraft, marine structure or floating container intended to be used to remove the substance or object from the sea bed, and, in the case of any vessel, its registration number and country of registration;

(c) the co-ordinates at which the object or substance is to be removed;

(d) the reason for removal of the substance or object from the sea bed;

(e) details of any alternative methods of removal considered by the applicant.

Dredging

10.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 9 (dredging).

(2) The additional particulars are–

(a) details of the type of dredging to be carried out;

(b) the co-ordinates at which the dredging is to be carried out;

(c) details of any information held by the licensing authority as to the contamination of the material to be dredged.

Deposit or use of explosives

11.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 10 (deposit or use of explosive substance or article).

(2) The additional particulars are–

(a) the co-ordinates at which the explosive substance or article is to be deposited or used;

(b) a description, including its quantity, of that explosive substance or article;

(c) details of the reason for the deposit or use of that explosive substance or article.

Incineration or loading a vehicle etc for incineration

12.–(1) This regulation applies in relation to applications and licences to carry on a licensable marine activity which falls within item 11, 12 or 13 (incineration of substances or objects or loading of vehicle, vessel etc for incineration).

(2) The additional particulars are–

(a) disgrifiad o'r sylwedd neu'r gwrthrych y bwriedir ei losgi, ynghyd â'i gyfansoddiad a'i faint;

(b) enw a disgrifiad o unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol y bwriedir cyflawni'r llosgi arno, ac yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(c) y cyfesurynnau lle y bwriedir cyflawni'r llosgi;

(ch) pan fo'r gweithgaredd yn dod o fewn eitem 13, y cyfesurynnau lle y bwriedir llwytho;

(d) manylion unrhyw ddewisiadau amgen, yn hytrach na llosgi, a ystyriwyd gan y ceisydd, a'r rheswm dros losgi'r sylwedd neu'r gwrthrych.

(a) a description of the substance or object to be incinerated, together with its composition and quantity;

(b) the name and description of any vehicle, vessel, aircraft, marine structure or floating container on which the incineration is to take place or which is to be loaded, and, in the case of any vessel, its registration number and country of registration;

(c) the co-ordinates at which the incineration is to take place;

(d) where the activity falls within item 13, the co-ordinates at which the loading is to take place;

(e) details of any alternatives to incineration considered by the applicant and the reason for the incineration of the substance or object.

Amrywio a dirymu trwyddedau, neu'u hatal dros dro

13. Y manylion ynglŷn ag amrywio, dirymu neu atal trwydded dros dro yw–

(a) rhif y drwydded;

(b) dyddiad yr amrywiad, dirymiad neu'r ataliad dros dro;

(c) y rheswm dros yr amrywio, dirymu neu atal dros dro;

(ch) yn achos amrywiad, manylion yr amrywiad.

Variation, revocation or suspension of licences

13. The particulars in relation to any variation, revocation or suspension of a licence are–

(a) the licence number;

(b) the date of the variation, revocation or suspension;

(c) the reason for the variation, revocation or suspension;

(d) in the case of a variation, details of the variation.

Trosglwyddo trwyddedau

14. Y manylion mewn perthynas ag unrhyw drosglwyddiad trwydded yw–

(a) rhif y drwydded;

(b) enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y drwydded iddo;

(c) dyddiad y trosglwyddiad.

Transfer of licences

14. The particulars in relation to any transfer of a licence are–

(a) the licence number;

(b) the name and address of the person to whom the licence has been transferred;

(c) the date of the transfer.

Collfarnau

15.–(1) Y manylion mewn perthynas ag unrhyw gollfarn am unrhyw dramgwydd o dan Ran 4 o'r Ddeddf yw–

(a) y ddarpariaeth o'r Ddeddf y collfarnwyd y person o dani;

(b) rhif y drwydded (os yw'n briodol);

(c) enw a chyfeiriad y person a gollfarnwyd;

(ch) dyddiad y tramgwydd;

(d) y rheswm dros erlyn;

(dd) y llys lle clywyd yr achos;

(e) dyddiad y gollfarn;

(f) unrhyw gosb a osodwyd gan y llys.

Convictions

15.–(1) The particulars in relation to any conviction for any offence under Part 4 of the Act are–

(a) the provision of the Act under which the person has been convicted;

(b) the licence number (where applicable);

(c) the name and address of the person convicted;

(d) the date of the offence;

(e) the reason for the prosecution;

(f) the court where the case was heard;

(g) the date of conviction;

(h) any penalty imposed by the court.

(2) Ym mharagraff (1) nid yw "collfarn" yn cynnwys collfarn a wrth-drowyd yn dilyn apêl.

Camau gorfodi eraill

16.–(1) Y manylion mewn perthynas ag unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd mewn perthynas â Rhan 4 o'r Ddeddf yw–

(a) rhif y drwydded (os yw'n briodol);

(b) enw a chyfeiriad y person y cymerwyd camau gorfodi yn ei erbyn;

(c) y math o gamau gorfodi a gymerwyd;

(ch) dyddiad y tramgwydd neu weithgaredd arall y cymerwyd camau gorfodi mewn perthynas ag ef;

(d) y rheswm dros y camau gorfodi;

(dd) manylion unrhyw gosb ariannol benodedig neu gosb ariannol newidiol(**1**) a osodwyd, neu unrhyw daliad a wnaed i gyflawni rwymedigaeth am gosb ariannol benodedig.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "camau gorfodi" ("*enforcement action*") yw–

(a) dyroddi hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, hysbysiad stop, hysbysiad diogelwch brys(**2**),

(b) gosod cosb ariannol sefydlog (neu ryddhau o'r rhwymedigaeth am y gosb cyn ei gosod) neu gosb ariannol newidiol o dan Orchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011(**3**),

ond nid yw'n cynnwys unrhyw hysbysiad neu gosb o'r fath a wrth-drowyd gan apêl.

Camau unioni a gymerwyd gan yr awdurdod trwyddedu

17. Y manylion mewn perthynas ag unrhyw weithiau a ymgymerwyd gan yr awdurdod trwyddedu o dan adran 106 o'r Ddeddf (pŵer i gymryd camau unioni) yw–

(a) rhif y drwydded (os yw'n briodol);

(b) dyddiad y gweithiau;

(c) y math o weithiau a ymgymerwyd;

(ch) y cyfesurynnau lle'r ymgymerwyd â'r gweithiau;

(d) y rheswm dros ymgymryd â'r gweithiau.

(2) In paragraph (1), "conviction" does not include a conviction that has been overturned on appeal.

Other enforcement action

16.–(1) The particulars in relation to any enforcement action taken in relation to Part 4 of the Act are–

(a) the licence number (where applicable);

(b) the name and address of the person against whom the enforcement action was taken;

(c) the type of enforcement action taken;

(d) the date of the offence or other activity in relation to which the enforcement action was taken;

(e) the reason for the enforcement action;

(f) details of any fixed monetary penalty or variable monetary penalty imposed(**1**) or any payment made to discharge a proposed fixed monetary penalty.

(2) In paragraph (1), "enforcement action" ("*camau gorfodi*") means–

(a) the issue of a compliance notice, remediation notice, stop notice, or emergency safety notice(**2**),

(b) the imposition of a fixed monetary penalty (or its discharge before imposition) or a variable monetary penalty under the Marine Licensing (Civil Sanctions)(Wales) Order 2011(**3**),

but does not include any such notice or penalty that has been overturned on appeal.

Remedial action taken by the licensing authority

17. The particulars relating to any works carried out by the licensing authority under section 106 of the Act (power to take remedial action) are–

(a) the licence number (if applicable);

(b) the date of the works;

(c) the type of works undertaken;

(d) the co-ordinates at which the works were carried out;

(e) the reason for the works.

(**1**) *Gweler* adran 115(1) am ddiffiniadau o'r termau Saesneg cyfatebol

(**2**) *Gweler* adran 115(1) am ddiffiniadau o'r termau Saesneg cyfatebol.

(**3**) O.S. 2011/924 (Cy.133).

(**1**) *See* section 115(1) of the Act for definitions of these terms.

(**2**) *See* section 115(1) of the Act for definitions of these terms.

(**3**) 2011/924 (W.133).

Jane Davidson

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

25 Chwefror 2011

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

25 February 2011

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2011 Rhif 557 (Cy.79)

2011 No. 557 (W.79)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

LLYGRU MOROL, CYMRU

MARINE POLLUTION, WALES

Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011

The Marine Licensing (Register of Licensing Information) (Wales) Regulations 2011

£5.75

W876/04/11 ON